



GWASANAETHAU ARLOESOL Y DYFODOL
INNOVATIVE FUTURE SERVICES



Tystebau

Roedd Mark Sharwood ac Andy Wilson yn rhan o Garfan Alpha ar gyfer Prosiect Infuse. Mark yw'r Rheolwr Datblygu Gwasanaethau Cyhoeddus ac Andy yw'r Rheolwr Data, Ymchwil a GIS ar gyfer Cyngor Torfaen.

Mae diddordeb gan Andy a Mark ynglŷn â sut y mae modd i ni ddarparu cefnogaeth sydd wedi ei deilwra ac sydd yn effeithiol i'n cymunedau. Yn benodol, maent am weld sut y mae modd defnyddio cyfalaf cymdeithasol fel rhywbeth sydd yn dynodi parodrwydd cymunedau (unigolion a sefydliadau) i gefnogi a gwella eu lles mewn cydweithrediad gyda'r sector cyhoeddus.

Drwy gyfrwng Infuse, roedd Mark ac Andy wedi cysylltu gyda Dr Muhammad Irfan, cymrawd ymchwil gyda Phrifysgol Caerdydd sydd ag arbenigedd mewn system cymorth penderfyniadau gofodol. Gyda chymorth Irfan, mae Andy a Mark wedi datblygu system GIS ar gyfer creu amcangyfrif o'r lefelau o gyfalaf cymdeithasol ym mhob cymuned yn Nhorfaen drwy ddwyn ynghyd ystod o ffynonellau data cyfredol a thrwy'r ymchwil newydd sydd yn seiliedig ar fodel Llywodraeth yr Alban.



Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Mae yna werth strategol sylweddol i'r gwaith hwn o ran Torfaen. Mae uchelgais gan Dorfaen i roi ein cymunedau wrth wraidd ein gwasanaethau cyhoeddus ac ymrymuso arweinwyr cymunedol a mudiadau cymunedol i chwarae mwy o rôl yn gosod ac yn gweithredu'r blaenoriaethau lleol.

Wrth weithio gyda Mark ac Andy, mae'r Prif Swyddog ar gyfer Cymunedau nawr yn edrych ar sut y mae modd defnyddio map cyfalaf cymdeithasol er mwyn llywio'r gwaith, ar lefel gymunedol, o ddylunio gwasanaethau a darparu gwasanaethau yn Nhorfaen. Mae hyn yn cynnwys sut i dargedu datblygu cymunedol ac adnoddau ymyrraeth gynnar sydd yn seiliedig ar rinweddau'r cymunedau unigol a sut i gryfhau'r broses o ymgysylltu a chyfathrebu ar lefel leol.